Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru

# Nodyn cynghori ar gyfer milfeddygon sy'n rhoi presgripsiynau am frechlynnau anweithredol BTV-3 yng Nghymru

---

Annwyl Gydweithiwr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn am eich cymorth i sicrhau bod y defnydd o'r brechlynnau BTV-3 anawdurdodedig, a ganiateir, yn cael ei fonitro'n dda, dylai'r data o hyn fod o fudd i ni i gyd. Mae fy ngheisiadau wedi'u hamlinellu yn y llythyr hwn. Gwn y byddwch eisoes yn gwneud hyn, ond i atgyfnerthu ei bwysigrwydd, cofnodwch yr holl frechlynnau yr ydych yn rhoi presgripsiwn ar eu cyfer yn ofalus a hysbyswch bob awdurdod perthnasol am unrhyw effeithiau niweidiol.

Rwy'n awyddus ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu'r cyngor a'r cymorth gorau posibl i geidwaid anifeiliaid mewn perthynas â'r brechlynnau anawdurdodedig hyn, a ganiateir. Yn ogystal â gofynion MRCVS a'r rhwymedigaethau cyfreithiol arferol, gofynnaf am eich cydweithrediad penodol â'r canlynol:

1. Dylai'r presgripsiwn ar gyfer y brechlyn gael ei roi, yn ysgrifenedig neu'n ddigidol, gan y milfeddyg preifat (PVS) sydd fel arfer yn gyfrifol am ofalu am yr anifeiliaid a fydd yn cael y brechlyn.

2. Dylai'r milfeddyg preifat gadw cofnod ysgrifenedig neu ddigidol am 5 mlynedd o leiaf (y dylid ei ddarparu i arolygydd os oes angen) o:
   a. Nifer y dosau a archebir gan y cyfanwerthwr.
   b. Nifer y dosau a gyflenwir i geidwaid anifeiliaid.

3. Dylai'r milfeddyg preifat a roddodd y presgripsiwn hysbysu Llywodraeth Cymru (animaldiseases@llyw.cymru) am yr wybodaeth isod, o fewn 7 diwrnod o roi'r presgripsiwn ar gyfer y brechlyn:
   a. Y CPH lle mae'r anifeiliaid wedi'u lleoli ar yr adeg y rhoddwyd y presgripsiwn.
   b. Enw cynnyrch y brechlyn a'r rhif swp.
   c. Rhywogaethau'r anifeiliaid y mae'r presgripsiwn ar eu cyfer, a'r nifer ohonynt.
   ch. Unrhyw gyfarwyddiadau arbennig sydd wedi'u cynnwys yn y presgripsiwn.

4. Dylid rhoi gwybod i'r cwmni fferyllol perthnasol (fel y manylir ar y daflen yn y pecyn) neu'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol am unrhyw sgil-

effeithiau niweidiol sy'n gysylltiedig â'r brechlyn, gan gynnwys diffyg effeithiolrwydd tybiedig, o fewn 7 diwrnod calendr.

Gall ceidwaid anifeiliaid roi'r brechlynnau eu hunain yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a chyfarwyddiadau milfeddygol, ac yn unol â'r rheoliadau meddyginiaeth filfeddygol perthnasol.

Llofnodwyd

Richard Irvine

Prif Swyddog Milfeddygol Cymru